*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 18 (Cy.9) (C.2)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU
# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 6) 2013

*Gwnaed - - - - 10 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 74(2) a 75(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a Dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 6) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "ardal awdurdod lleol" ("*local authority area*") yw'r ardal ddaearyddol honno o Gymru y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdani.

### Cychwyn mewn ardaloedd penodedig ar 1 Chwefror 2013

**2.**—(1) Daw darpariaethau Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a bennir ym mharagraff (2) i rym ar 1 Chwefror 2013 mewn perthynas â'r ardaloedd awdurdod lleol a ganlyn—

(a) Castell-nedd Port Talbot;

(b) Pen-y-bont ar Ogwr; ac

(c) Abertawe.

(2) Y darpariaethau yw—

(a) adran 57 (sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd);

(b) adran 58 (swyddogaethau timau integredig cymorth i deuluoedd) ac eithrio is-adrannau (2) a (6)(b), (c) a (d);

(c) adran 59 (adnoddau ar gyfer timau integredig cymorth i deuluoedd);

(d) adran 60(2) (cyfansoddiad timau integredig cymorth i deuluoedd);

(**1**) 2010 mccc 1.

(e) adran 61 (sefydlu byrddau integredig cymorth i deuluoedd);

(f) adran 62(1) (amcanion y byrddau integredig cymorth i deuluoedd);

(g) adran 64 (adroddiadau blynyddol ar dimau integredig cymorth i deuluoedd);

(h) adran 65 (canllawiau ynghylch timau integredig cymorth i deuluoedd).

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

10 Ionawr 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i ddarpariaethau yn Rhan 3 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur") mewn perthynas â thair ardal awdurdod lleol.

Mae'r darpariaethau eisoes mewn grym mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerfyrddin, Casnewydd, Ceredigion, Merthyr Tudful, Powys, Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro a Wrecsam. Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn y darpariaethau i rym mewn perthynas â thair ardal awdurdod lleol bellach, sef Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe ar 1 Chwefror 2013.

Mae'r darpariaethau a ddygir i rym yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu tîm integredig cymorth i deuluoedd ("tîm ICiD") yn eu hardal. Rhaid i fwrdd iechyd lleol y mae ei ardal yn cyfateb i ardal yr awdurdod lleol gymryd rhan wrth sefydlu'r tîm.

Mae'r darpariaethau hefyd yn nodi'r mathau o achosion a all gael eu hatgyfeirio at dîm ICiD ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau sefydlu bwrdd i oruchwylio'r tîm. Dim ond paragraff (a) o adran 58(6) o'r Mesur sydd wedi ei gychwyn, felly dim ond atgyfeiriadau mewn perthynas â theuluoedd pan fo rhiant yn ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau sy'n gallu cael eu derbyn gan dîm ICiD.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wedi cael eu dwyn i rym gan Orchmynion Cychwyn sydd wedi eu gwneud cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 57 | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| Adran 58(1)—(5), (6)(a), (7)—(14) | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| Adrannau 59—65 | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| Adrannau 19—56 | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123) |
| Adran 72 ac Atodlen 1 paragraffau 1—18, paragraffau 21—28 | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123) |
| Adran 73 ac Atodlen 2 (i'r graddau y maent yn ymwneud â Deddf Plant 1989, Deddf | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Addysg 2002 a Deddf Gofal Plant 2006) | | |
| Adran 2 (i'r graddau y mae'n gymwys i'r awdurdodau Cymreig) | 10 Ionawr 2011 | O.S. 2010/2994 (Cy.248) (C.134) |
| Adrannau 4, 5, 6, 17, 18 | 10 Ionawr 2011 | O.S. 2010/2994 (Cy.248) (C.134) |
| Adrannau 58(2), 60(1), 62(2), a 63 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym | 27 Ionawr 2012 | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| Rhan 3 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) ac eithrio paragraffau (b), (c), a (d) o adran 58(6) | 28 Chwefror 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| Rhan 3 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) ac eithrio paragraffau (b), (c), a (d) o adran 58(6) | 31 Mawrth 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| Adran 12 | 31 Ionawr 2012 | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| Adran 11 (ac eithrio is-adrannau (3) a (4)) | 1 Tachwedd 2012 | O.S. 2012/2453 (Cy.267) (C.96) |